

YMGYRCHU DROS YR IAITH

Taenodd ffigurau'r cyfrifiad gysgod dros yr ymdrechion i adfywio'r iaith yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Yn 1951 roedd nifer y siaradwyr wedi disgyn i 714,868, sef 28.9% o'r boblogaeth; yn 1971, 542,425 neu 20.9% oedd yn hawlio'u bod yn rhugl yn y Gymraeg ac erbyn 1991 cafwyd gostyngiad pellach i 508,098 neu 18.6%. Roedd rhai tueddiadau yn dod yn fwyfwy amlwg. Erbyn yr 1960au prin iawn oedd y siaradwyr uniaith Gymraeg; roedd dwyieithrwydd yn norm, a'r cysyniad o 'Fro Gymraeg', yn ymestyn yn ddi-dor o'r gogledd-orllewin i'r de-orllewin, bro lle gellid cynnal bywyd bob dydd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn erydu'n gyflym. Roedd tirlun ieithyddol newydd yn cael ei greu. Er mai dim ond 13.3% o drigolion y Rhondda oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 1971, roedd eu nifer yn 11,925 – traean Cymry-Cymraeg Sir Feirionnydd.

Does ryfedd, felly, fod morâl y siaradwyr a statws yr iaith yn isel iawn yn ystod yr 1950au. Roedd ymdeimlad cyffredinol ei bod yn argyfwng ar yr iaith ond doedd fawr o amgyffrediad



Protest gan Gymdeithas yr iaith Gymraeg yn Swyddfa Bost Aberystwyth, 1963

sut i ymateb iddo. Ac eto, yn ystod y degawd hwn yr heuwyd hadau'r adfywiad diweddarach.

Trachwant Corfforaeth Lerpwl a dinasoedd eraill am ddŵr Cymru symbylodd yr ymdeimlad o ddiecter ymysg Cymry ledled y wlad. Deffrodd boddi Cwm Tryweryn, ger y Bala, ymateb cryf iawn ymhlith bron pob awdurdod lleol ac Aelod Seneddol yng Nghymru a thyfodd yn symbol o ddiymadferthedd gwleidyddol y Cymry. Roeddent wedi methu rhwystro bro Gymraeg rhag cael ei difodi.

Yn y cyfamser; yng ngorllewin diwydiannol Cymru, roedd Eileen a Trevor Beasley wedi dechrau'u hymgyrch unig ond arwrol o anufudd-dod sifil o wrthod talu eu trethi i Gyngor Dosbarth Gwledig Llanelli, hyd nes y caent ffurflenni dwyieithog. Rhwng 1952 ac 1960 ymddangoson

nhw o flaen y llysoedd un ar bymtheg o weithiau a chipiodd beiliaid eu heiddo o'u cartref ar chwe achlysur; gan adael dim ond pot o jam ar silff lyfrau wag, un tro.

Safiad diwyro'r Beasleys dros eu hawl iau fel siaradwyr y Gymraeg ysbrydolodd ddarlith radio



Graffiti enwog ger Llanrhystud, Ceredigion



Gymraeg yn Swyddfa Bost

ystod y degawd hwn
i weddarach.
owl a dinasoedd eraill
r ymdeimlad o ddicter
ffrodd boddi Cwm
cryf iawn ymhlith bron
Seneddol yng
l o ddiymadferthedd
nt wedi methu
ael ei difodi.
in diwydiannol
Beasley wedi
arwrol o anufudd-
hi i Gyngor Dosbarth
nt ffurflenni
1960 ymddangoson
flaen y llysoedd un ar
eg o weithiau a
dd beiliaid eu heiddo
rtref ar chwe achlysur,
ael dim ond pot o
silff lyfrau wag, un tro.
ad diwyro'r Beasleys
u hawliau fel
vyr y Gymraeg
olodd ddarlith radio



Trevor ac Eileen Beasley a'u teulu

Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*, a ddarlledwyd ar 13 Chwefror, 1962. Roedd Lewis yn Llywydd Anrhydeddus Plaid Cymru ond wnaeth hynny mo'i atal rhag mynegi'r rhwystredigaeth a gorddai sawl un yn rhengoedd y Blaid, ac yn enwedig yr ifanc, ei bod yn rhoi mwy o bwyslais ar ennill seddau seneddol nag ar dynged y Gymraeg. Yn ei ddarlith, defnyddiodd Lewis esiampl y Beasleys i ddangos sut y gallai gweithredu anghyfansoddiadol esgor ar newidiadau o bwys. Rhagwelodd na fyddai'r iaith yn goroesi i'r unfed ganrif ar hugain oni cheid gweithredu digyfaddawd ar unwaith. Ei brif neges oedd y dylai'r iaith gael statws swyddogol o fewn llywodraeth leol a chenedlaethol yng Nghymru. Dyma ddylai fod yn flaenoriaeth i Blaid Cymru. 'Nid dim llai na chwyldroad yw adfer yr iaith Gymraeg yng Nghymru', meddai, 'penderfyniad, ewyllys, aberth, ymdrech' a fyddai'n arbed ei thranc.

Darlith Saunders Lewis oedd y prif symbylydd i grŵp o ddeallusion ifanc, yn ardal Aberystwyth yn bennaf, sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod haf 1962. Mudiad protest ydoedd, gydag un nod, sef adfer statws swyddogol yr iaith, trwy ddulliau anghyfansoddiadol os oedd angen. Ac felly y dechreuodd ymgyrchu hir a pharhaus, ar sawl ffrynt, a chan ddefnyddio llawer o dactegau gwahanol i



Saunders Lewis

Rali Glyndwr 2002 Rheoli'r Farchnad Dai

2pm - Medi 14

Neuadd Cyngor Ceredigion

Aberaeron

Meredydd Evans & Emyr Llywelyn



DEDDF EIDDO I GYMRU!

Rali o blaid Deddf Eiddo i Gymru

gyrraedd y nod. Efelychodd yr aelodau fudiadau anufudd-dod sifil ledled y byd, yn enwedig rhai'r mudiadau heddwch a'r ymgyrchoedd hawliau sifil yn UDA. Ar y dechrau, pwysleisid yr hawl i gael ffurflenni Cymraeg; gwysion llys, trwyddedau ceir a thystysgrifau geni. Er mwyn tynnu sylw at eu hymgyrchoedd ceisiai aelodau'r Gymdeithas gael eu harestio a'u dwyn gerbron y llysoedd. Yr enwocaf efallai oedd y brotest ar Bont Trefechan, Aberystwyth yn 1963, pan gaewyd y ffordd gan brotestwyr; ar eu heistedd, yn llenwi'r lle. Roedd yn ddigwyddiad eitha doniol ond mae'n eiconig bellach. Rhoddodd y brotest hon y cyhoeddusrwydd yr oedd ei wir angen i'r achos. Yn 1967, pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg, a aeth i'r afael â rhai o'r materion mwyaf llosg, ond a amlygai hefyd yr angen am ddeddfwriaeth bellach.

Trodd y Gymdeithas ei golygon nesaf at ddifyg Cymraeg ar arwyddion ffyrdd y wlad, ymgyrch a oedd yn hynod boblogaidd, ac eto'n amhoblogaidd ymhlith llawer o Gymry Cymraeg ar y pryd. Ar y dechrau, paentio'r arwyddion â phaent gwyrdd oedd y dacteg, ac yna'u tynnu a mynd â nhw i'r orsaf heddlu agosaf. Galwai ymgyrchoedd eraill am Ddeddf Eiddo a reolai'r farchnad dai ac ail gartrefi yng Nghymru; polisïau addysg lleol a chenedlaethol positif, a Deddf Iaith fwy cynhwysfawr:

Mudiad pobl ifanc/myfyrwyr oedd, ac yw, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, yn ei hanfod, gyda thua 2,000 o aelodau ar y tro. Ond gallant dynnu ar ewyllys da a chefnogaeth ddistaw, ac weithiau weithredol, cefnogwyr aeddfetach, parchus ac ufudd i'r gyfraith.

Ymysg y mwyaf dylanwadol o'r rhain yn ystod y blynyddoedd cynnar roedd Alwyn D. Rees, â'i golofnau golygyddol misol yn y cylchgrawn *Barn*, yn sicrhau na allai'r awdurdodau fforddio anwybyddu protestiadau'r ifanc. Yn ystod y llu ymgyrchoedd, dirwywyd cannoedd o'r aelodau a charcharwyd oddeutu 200. Ers y

chwedegau mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu polisi 'di-drais yn erbyn personau' yn gonglfaen ei hymgyrchoedd gweithredu uniongyrchol. Un agwedd bwysig o'r aelodaeth oedd y nifer o ferched ifanc a oedd yn weithredol ynddi. Yn eu plith roedd Meri Huws, Meg Elis a Branwen Nicholas, a fu'n gadeiryddion y mudiad ac a fu yn y carchar dros eu daliadau. Wrth i'r ymgyrchu ddatblygu, daeth yn fwyfwy amlwg nad oedd sicrhau hawliau ieithyddol y Cymry Cymraeg yn ddigonol. Roedd yn rhaid symud y pwyslais i atgyfnerthu a sicrhau dyfodol y cymunedau Cymraeg eu hiaith hwythau – o safbwynt gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol – ac i annog pawb yng Nghymru i gofreidio'u mamiaith. Bu cyflawniadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn rhyfeddol, ac mewn sawl ffordd byddai Cymru heddiw yn lle pur wahanol oni bai am weithredoedd diflino, egwyddorol a dihanan ei haelodau ifanc.

Dafydd Iwan a'r ymgyrch arwyddion ffyrdd



c/myfyrwyr oedd, ac yw,
Gymraeg, yn ei hanfod,
melodau ar y tro. Ond
yllys da a chefnogaeth
weithredol, cefnogwyr
ac ufudd i'r gyfraith.
tylanwadol o'r rhain yn
d cynnar roedd Alwyn
golygyddol misol yn y
sichrau na allai'r
io anwybyddu
Yn ystod y llu
wyd cannoedd o'r
wyd oddeutu 200. Ers y
as wedi mabwysiadu
onau' yn gonglfaen ei
niongyrchol. Un
n oedd y nifer o ferched
nddi. Yn eu plith roedd
ven Nicholas, a fu'n
fu yn y carchar dros eu
ddatblygu, daeth yn
hau hawliau ieithyddol
hol. Roedd yn rhaid
u a sichrau dyfodol y
th hwythau – o
maidd a chymdeithasol
mru i gofleidio'u
ymdeithas yr iaith
ewn sawl ffordd byddai
hanol oni bai am
dorol a dihanan ei

on ffyrdd



Protestwyr o fri

Merched y Wawr

Yn 1966–7 gwrthryfelodd aelodau cangen y Parc (pentref bychan ger y Bala), o Sefydliad y Merched yn erbyn cyfarwyddyd y mudiad hwnnw fod gweithgareddau swyddogol y gangen i'w cynnal yn Saesneg. O'r brotest leol hon ganwyd mudiad Cymraeg ar gyfer menywod, Merched y Wawr. Heddiw, mae ganddo tua 280 o ganghennau a chlybiau ledled Cymru, sy'n trefnu dros 2,250 o ddigwyddiadau a chyfarfodydd cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.



Angharad Tomos

Cafodd Angharad Tomos ei charcharu sawl tro pan oedd hi'n aelod ac yna'n Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn yr wythdegau. Ysbrydolodd y dedfrydau hyn ei nofel *Yma o Hyd*, lle mae'n myfyrion am y cyfrifoldebau a orfodir arni am ei bod yn Gymraes mewn cyfnod mor dyngedfennol yn hanes yr iaith:



Mae arna i ofn ... Peth ofnadwy ydy ofni'r dyfodol. Sgin i ddim gymaint o ofn gweld diwedd Cymru ag sydd gen i o orfod byw drwy'r broses. Achos proses ddychrynlyd ydi gorfod gwyllo rhywun yn marw. Biti na faswn i wedi cael fy ngeni genhedlaeth yng nghynt. Biti na faswn i wedi cael fy ngeni genhedlaeth yn hwyrach. Unrhyw adeg 'blaw rŵan ...

Dafydd Iwan

Dafydd Iwan oedd Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod ymgyrch fwyaf gweledol ac efallai dadleuol y gymdeithas – dros arwyddion ffyrdd dwyieithog. Roedd e'n ganwr poblogaidd a allai danio'r ymgyrchoedd â chaneuon protest:

Cawn beintio'n byd yn wyrdd, hogia,
Peintio'r byd yn wyrdd;
Rhown Gymru oll ar dân, hogia
A pheintio'r byd yn wyrdd.

Roedd ei ganeuon dychanol am arwisgo Siarl yn Dywysog Cymru yn arbennig o boblogaidd.

